

SL(5)755 – Gorchymyn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Estyn y Cyfnod Adolygu) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 101(3)(b) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae adran 101 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal asesiad gan awdurdod tai lleol o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswylio yn ei ardal neu sy'n cyrchu yno. Mae adran 101(3) o'r Ddeddf yn nodi ystyr y "cyfnod adolygu", sef y cyfnod y mae rhaid i'r asesiad hwn gael ei gynnal ynddo.

Y cyfnod adolygu cyntaf o dan adran 101(3)(a) oedd y cyfnod o 25 Chwefror 2015 i 24 Chwefror 2016. O dan adran 101(3)(b) roedd pob asesiad dilynol i'w gynnal yn ystod pob cyfnod dilynol o 5 mlynedd. Oherwydd effeithiau'r coronafeirws ar gymunedau yng Nghymru a'i effaith ar weinyddu mewn awdurdodau tai lleol mae'r cyfnod adolygu, a fyddai fel arall wedi dod i ben ar 24 Chwefror 2021, wedi ei estyn gan un flwyddyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio ystyr "cyfnod adolygu" yn adran 101(3) o'r Ddeddf fel bod y cyfnod adolygu sy'n dilyn y cyfnod adolygu o dan baragraff (a) wedi ei gynyddu o 5 i 6 mlynedd. Ar ôl hynny, y cyfnod adolygu yw 5 mlynedd.

Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddua bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Gorchymyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:



"A formal consultation has not taken place. However, on the 16 July 2020 the Welsh Government wrote to all local authorities in Wales to acknowledge the challenges of completing the needs assessment to support the Gypsy Travellers Accommodation Assessments and share four options for consideration:

- *Keep the status quo and require all authorities to undertake an assessment by 25 February 2021.*
- *Permit assessment surveys to be undertaken remotely where possible and in-person where this was not possible.*
- *Permit assessment surveys to be undertaken remotely where possible and not require in-person where remote contact was not possible.*
- *Extend the review period by 12 months.*

In addition, an engagement event was held with local authorities on the 17th September where the options were also discussed and indication given that the Minister would consider allowing an extension should this offer useful support to local authorities.

An expert stakeholder group comprising those working with Gypsies and Travellers and individuals from these communities, discussed the proposals on 2 July 2020 and provided clear advice that remote contact methods, including phone calls, would be unlikely to provide robust engagement. They unanimously supported the Welsh Government providing a 12 month extension to the process.

Officials do not plan to undertake formal consultation in addition to the informal consultation already undertaken on this matter. In order to act quickly to provide clarity to local authorities, it is not possible to undertake additional consultation. The flexibility, inherent in the recommended approach, and the general majority support expressed in the informal consultation will allow the Welsh Government to offer bespoke support to any local authority as required."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Ar hyn o bryd, bydd awdurdod tai lleol na chynhaliodd ei ail asesiad erbyn 24 Chwefror 2021 yn torri'r ddyletswydd yn adran 101 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a bydd yn parhau i dorri'r ddyletswydd honno nes i'r Gorchymyn ddod i rym ar 18 Mawrth 2021.

Mewn perthynas â hynny, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Whilst local housing authorities that have not carried out an assessment will be in breach of the duty in s.101(1) of the Housing (Wales) Act 2014 between 25 February 2021 and 18 March 2021, this represents the minimum achievable breach possible in current circumstances."



Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyflawnder a'r Cyfansoddiad

2 Mawrth 2021



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyflawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee